# Gofalwyr oedolion ag anawsterau (anableddau) dysgu

Mae gan lawer o rieni a gofalwyr oedolion ag anawsterau dysgu brofiad oes o ofalu, gyda gwahanol anghenion yn codi ar wahanol adegau. Maen nhw wedi magu cyfoeth o wybodaeth a phrofiad dros y blynyddoedd. Ond, mae pawb angen help a chefnogaeth weithiau. Mae'n siŵr bod pob un ohonom wedi teimlo'r angen i siarad ag eraill sy'n deall ein sefyllfa. Fe fedrech chi wynebu adegau lle y mae gormod i'w wneud; dim digon o arian; dim bywyd cymdeithasol nac amser i chi'ch hun, a phan fyddwch chi'n teimlo nad ydych chi'n cael digon o gwsg na chyfle i ymlacio.

Mae gan bob gofalydd ei anghenion cefnogi unigol ei hun, a nod ein gwasanaeth hyn. Rydym eisiau sicrhau bod pob teulu'n cael cefnogaeth, cymorth a gwybodaeth ar yr amser iawn, mewn fformat sy'n hygyrch i'w hanghenion unigol. Trwy wneud hyn, byddwn yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bawb sy'n gysylltiedig.

Trwy gofrestru gyda ni, byddwch chi'n cael y cyfle i gwrdd â phobl sy'n byw gyda heriau tebyg. Byddwch hefyd yn medru cael cymorth gan ein Swyddogion Cymorth Gofalwyr.

**Gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer rhiant-ofalwyr**

- Gwybodaeth a chefnogaeth arbenigol gan y Swyddogion Cymorth Gofalwyr
- Cyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau a ffynonellau cymorth eraill.
- Grwpiau cymorth rheolaidd i rieni
- Gwybodaeth ariannol am fudd-daliadau a grantiau er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu hawliau
- Cerdyn cynllunio at argyfwng sy'n helpu rhieni a gofalwyr i feddwl am y dyfodol.
- Mae'r wefan, Facebook a Twitter i gyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf.
- **Yng Ngwynedd yn unig**: Cylchlythyr rheolaidd sy'n benodol i rieni a gofalwyr oedolion ag anawsterau dysgu, sy'n cynnwys y newyddion diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yng Ngwynedd ac

ym maes anawsterau dysgu. Mae hefyd yn annog rhieni a gofalwyr i gynnig adborth a sylwadau.

**Rhai cysylltiadau defnyddiol:**

Anabledd Dysgu Cymru https://www.adcymru.org.uk/

Gofalwyr Cymru http://www.carersuk.org/

Mencap https://www.mencap.org.uk/advice-and-support

Fforwm Cymru Cyfan http://www.allwalesforum.org.uk/

Anabledd Cymru http://www.disabilitywales.org/

Cymdeithas Genedlaethol Awstistiaeth http://www.autism.org.uk/

SNAP http://www.snapcymru.org/

Cymdeithas Syndrom Down https://www.downs-syndrome.org.uk/

Cymdeithas Cynghori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru http://www.nwaaa.co.uk

Cyngor Gwynedd https://www.gwynedd.llyw.cymru

Cyngor Ynys Môn http://www.anglesey.gov.uk/

Cyngor Conwy https://www.conwy.gov.uk/